# HINSAWDD HURT

**Mae'r adnodd yma yn cefnogi dysgu am themâu a phynciau allweddol trwy**

**Daearyddiaeth/Astudiaethau Amgylcheddol/Gwyddoniaeth :**
effaith newid hinsawdd ar ddisgyblion yn y DG ac yn fyd-eang; dysgu sut i fesur ôl troed carbon rhywun; datblygiad cynaliadwy; cynhesu byd-eang

**Themâu AG :** astudio gwaith
elusen Gristnogol; stiwardiaeth; gofalu am ein byd.

**Themâu ABCh/ Dinasyddiaeth fyd-eang :** cymryd rhan; cyfrifoldebau; ymwybyddiaeth fyd-eang; dinasyddiaeth fyd-eang

Ysgrifennwyd yr adnodd hwn ar gyfer pwrpas addysgiadol. I'w rannu'n eangach neu er budd masnachol, rhaid cael caniatâd gan Cymorth Cristnogol. Ysgrifennwyd gan So-Shan Au a Nicola Inson ar gyfer Cymorth Cristnogol, 2007. Cyfieithiwyd i'r Gymraeg gan Elenid Jones. Gellwch hefyd lawr lwytho'r deunyddiau hyn o **www.christianaid.org/learn**

## Newid hinsawdd a thlodi

Mae Cymorth Cristnogol am roi diwedd ar dlodi yn y byd. I wneud hyn, rhaid mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd – am mai pobl dlota'r byd sydd yn dioddef waethaf o'i herwydd. Maen nhw'n byw mewn ardaloedd sydd yn dueddol o ddioddef sychdwr, stormydd a llifogydd, ond nid oes ganddynt y modd i'w hamddiffyn eu hunain. Wrth i'r ddaear dwymo bydd y stormydd yn mynd yn fwyfwy nerthol ac ansicr. Mae llawer o gymunedau tlawd yn dibynnu ar y tywydd am eu bod yn ennill eu bywoliaeth trwy ffermio, felly pan fydd yr hinsawdd yn newid, nhw fydd y cyntaf i ddioddef.

Mae'r adnodd hwn yn cymell y disgyblion i feddwl am effeithiau'r newid yn yr hinsawdd – pwy gaiff eu heffeithio fwyaf a sut fydd hyn yn eu heffeithio. Ond nid yw'n ddu i gyd; mae yna gyfle i newid pethau. Bydd plant yn ystyried sut y gallan nhw helpu i atal anhrefn hinsawdd trwy eu dewisiadau nhw mewn bywyd. Byddant yn dysgu sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar blant mewn rhannau eraill o'r byd a sut y mae Cymorth Cristnogol yn helpu i greu byd mwy cynaliadwy.

**Myfyrdod/gweddi**
Gofalwn am ein hinsawdd
Am y glaw
Mae glaw yn rhoi tai dan ddŵr ond yn gwneud i blanhigion dyfu
Gofalwn am ein hinsawdd
Am y gwynt
Gall y gwynt lorio coed ond fe all yrru tyrbin
Gofalwn am ein hinsawdd
Am yr haul
Gall gwres yr haul grasu'r tir ond fe all gynhesu panel solar
Gofalwn am ein hinsawdd
Am y tywydd
Am y bobl sy'n byw gyda stormydd a llifogydd a sychdwr
Gofalwn am ein hinsawdd.

## Gwasanaeth ysgol : Newid hinsawdd – mae'n digwydd nawr! (15 munud)

**Thema :** Newid hinsawdd; pynciau gwyrdd; yr amgylchedd; llifogydd

**Canolbwyntio ar :** Bangladesh

**Nod :** I ddangos i ddisgyblion sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar fywydau pobl; i gydymdeimlo ag eraill; i fyfyrio ar sut y gall ein gweithredoedd ni wneud gwahaniaeth i bobl ledled y byd.

**Adnoddau/paratoadau :**
- Lawr lwytho **cyflwyniad PowerPoint Hinsawdd Hurt** ac astudio'r orielau lluniau a storïau fideo ar www.christianaid.org.uk/learn (neu defnyddio *stori Champa* a gynhwysir yma).
- Chwilio am gân am y glaw (*ee. Bwrw glaw yn sobor iawn*)

1. Dangoswch y cyflwyniad **PowerPoint** neu dangoswch yr **oriel luniau** wrth i'r plant gyrraedd. Gwrandewch ar gân am y glaw i osod yr olygfa
2. Gofynnwch i'r plant os ydyn nhw'n hoffi'r glaw. Atgoffwch nhw bod arnom ni angen glaw i dyfu ein bwyd.
3. Gofynnwch i'r plant i wrando'n ofalus ar stori Champa er mwyn gwybod pam ei bod hi'n ofni dŵr.
4. Chwaraewch neu ddarllenwch ***stori Champa***, dangoswch lun ohoni a map o'r byd sy'n aroleuo Bangladesh (gan ddefnyddio lluniau o'r cyflwyniad PowerPoint).
5. Gofynnwch i wirfoddolyn i ddweud wrthych pam fod ar Champa ofn dŵr.
6. Eglurwch fod y byd yn cynhesu, yn rhannol oherwydd bod mwy o'r nwy ($CO_2$) yn yr awyr a bod hwn fel blanced yn trapio'r gwres. Dyw rhai lleoedd ddim yn cael cymaint o law ag yr arferent ac mae hyn yn ei gwneud hi'n fwy anodd i dyfu cnydau. Mae lleoedd eraill weithiau yn cael gormod o ddŵr sydd yn achosi llifogydd. Mewn lleoedd eraill mae'r stormydd yn mynd yn gryfach a mwy dinistriol. Arferai'r llifogydd mawr ddigwydd yn Bangladesh bob rhyw 20 mlynedd ond nawr maen nhw'n digwydd bob pum neu chwe mlynedd. Rhaid i deuluoedd adael eu cartrefi bob tro y bydd hyn yn digwydd, ac yn aml bydd rhaid iddyn nhw i adael llawer o'u heiddo ar ôl.
7. Eglurwch bod $CO_2$ yn cael ei ollwng pan fyddwn yn defnyddio ynni (gyrru ceir, hedfan mewn awyrennau, defnyddio trydan yn y cartref a'r ysgol) ond fe allwn i gyd dorri i lawr ar faint y defnyddiwn. Atgoffwch y disgyblion fod nhw'n arbennig o dda am berswadio pobl mewn oed i wneud pethau, felly fe ddylen nhw i gyd ddweud wrth eu teuluoedd am dorri nôl!
8. Gofynnwch i'r plant am syniadau ar sut y gallwn ni dorri i lawr ar faint o garbon deuocsid sy'n cael ei gollwng. E.e:
   - troi'r PlayStation/Teledu/chwaraeydd DVD ayyb i ffwrdd wrth y wal
   - cerdded neu seiclo i'r ysgol
   - perswadio rhieni i hedfan a gyrru llai a chymryd y trên neu'r bws yn lle.
9. Darllenwch y myfyrdod/weddi

cymorth cristnogol Hinsawdd newydd. Torrwn y carbon.

© Cymorth Cristnogol, Hydref 2007

# HINSAWDD HURT

## Gwaith dosbarth

Dewiswch o blith y gweithgareddau hyn i gyflwyno pynciau newid hinsawdd i'r plant.

Noder: Gall y gweithgareddau gael eu cyfuno i greu uned waith neu eu defnyddio'n annibynnol, ond mae'n well defnyddio gweithgareddau o grŵp A cyn mynd ymlaen i grŵp B.

**A: Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar bobl dlota'r byd?**

- Lawr lwythwch y **cyflwyniad PowerPoint Hinsawdd Hurt** oddi ar www.christianaid.org.uk/learn i'w ddefnyddio ar fwrdd gwyn fel cyflwyniad i'r pwnc (gallech gael y **gwasanaeth** cyn dechrau'r wers hon).
- Lawr lwythwch rhagor o **storïau, lluniau a fideos** oddi ar www.christianaid.org.uk/learn neu www.globalgang.org am brofiadau plant o newid hinsawdd
- Dangoswch un neu fwy o'r **storïau fideo**:
  **Champa** (Bangladesh) www.globalgang.org/hotnews/childpwer/refugees_2006.html)
  **Hadja** (Senegal) (www.togethertv.org/video-hadja-diallo.shtml)
- **Gweithgareddau drama :** *Llifogydd! Neu Hinsawdd Newydd!* Mae'r ddau yn helpu plant i ddeall sut mae tywydd eithafol yn effeithio ar fywydau a chartrefi pobl.
- Llungopïwch ***stori Champa*** a ***stori Fatima*** a'u dosbarthu. Darllenwch y storïau mewn parau neu fel gweithgaredd dosbarth cyfan. Trafodwch y pynciau a godir yn y storïau megis :
  - *Beth yw'r broblem yn y stori? Sut mae'n gwneud i bobl deimlo? Sut mae e wedi newid eu bywydau?*
  - *Sut mae'r stori yn gwneud i chi deimlo?*
  - *Pa weithgareddau sy'n gyfrifol am ollwng $CO_2$ a gwaethygu'r newid yn yr hinsawdd? (ee hedfan, gyrru, torri coed ayyb).*
  - *Beth ydych chi'n meddwl y mae'r person yn y stori yn ei wneud i waethygu'r newid yn yr hinsawdd? (Dwedwch wrth y plant fod person yn y DG ar gyfartaledd yn gyfrifol am ollwng 33 gwaith yn fwy o $CO_2$ bob blwyddyn na pherson yn Bangladesh.*
  - *Ydy'r gwahaniaeth rhwng beth y byddwn ni yn ei wneud a'r hyn y mae person y stori yn ei wneud yn eich synnu? Pam?*
  - *Beth fedrwn ni ei wneud i helpu?*
- Mewn grwpiau bychan, gofynnwch i'r plant i wneud gweithgaredd 'sedd holi'. Gynta'i gyd, mae pob disgybl yn nodi i lawr dri chwestiwn yr hoffent eu gofyn i'r bobl yn y storïau. Yn eu tro, mae pob disgybl yn chwarae rhan Champa/Aissata/Fatimata/pentrefwyr yn Senegal ac yn ateb y cwestiynau a ofynnir gan eu grŵp.
- Mewn grwpiau bach, mae disgyblion yn darganfod mwy am naill ai Bangladesh neu Senegal a sut y caiff y wlad ei heffeithio gan newid hinsawdd. Gallwch hefyd ddefnyddio y ***Country profiles*** i'w gweld ar www.christianaid.org.uk/learn

**B: O'r byd-eang i'r lleol – torrwn y carbon!**

Dangosodd arolwg diweddar (Arolwg RM School Gate) bod plant yn methu cysgu'r nos am eu bod yn poeni am newid hinsawdd ac yn teimlo'n ddi-rym i'w atal. Bwriad y gweithgareddau hyn yw helpu plant i deimlo y gallan nhw wneud gwahaniaeth trwy dorri i lawr eu gollyngiad o $CO_2$ a chymryd cyfrifoldeb am wneud y newid.

1. Rhowch gyfle i ddisgyblion i edrych ar yr adnoddau gwe canlynol a/neu unrhyw ddeunydd y cawsoch hyd iddo ar sut i helpu'r blaned.
   - www.globalgang.org/games/greenquiz.html
   - www.globalgang.org/games/gamezone/disasters_tips.html
   - http://news.bbc.co.uk/cbbcnews (search 'global warming')
   - www.recyclenow.com/
2. Rhannwch y dosbarth i grwpiau bach gan eu rhoi yn un o'r categorïau canlynol : *cartref; ysgol ; gwyliau a theithio; gweithgareddau allan o'r ysgol*. Gofynnwch i bob grŵp i feddwl am bethau y gall pobl eu gwneud i ymladd newid hinsawdd. Dyma rai syniadau i'w dechrau ar y ffordd:
   - Y tri eco-A – arbed, ailddefnyddio, ailgylchu
   - Dechrau compostio gyda dail, toriadau porfa a gwastraff ffrwythau a llysiau heb eu coginio
   - Arbedwch adnoddau: dechreuwch gynllun cyfnewid dillad!
   - Ailgylchwch hen ffonau symudol a chetrys printio trwy ddefnyddio amlenni arbennig Cymorth Cristnogol. I archebu amlenni, ffoniwch 029 2084 4646
3. Gofynnwch i bob grŵp i gyflwyno'u syniadau ac ysgrifennwch bob syniad i lawr ar y bwrdd. O'r rhestr yma, gofynnwch i'r plant i ddewis pump gweithgaredd y maen nhw'n credu sydd mwyaf pwysig. Cyfrifwch y dewisiadau a rhestrwch y pum gweithgaredd mwyaf poblogaidd ar y poster o dan 'Torrwn y Carbon'.
4. Gall y disgyblion hefyd lenwi eu **haddewid ar-lein** ar www.globalgang.org a gweld beth y mae plant eraill yn gwneud.
5. Dywedwch wrth bawb! Gofynnwch i'r plant weithio mewn grwpiau bach. Y dasg yw hysbysebu un o'u haddewidion/gweithgareddau i weddill yr ysgol. P'un yw'r ffordd orau yn eu tyb nhw i hysbysebu, i roi gwybodaeth ac i gael yr effaith fwyaf? Gallai'r hysbysebion fod yn ddrama ar gyfer gwasanaeth ysgol, yn boster, yn gyflwyniad PowerPoint neu yn ffilm.

**C: Chwarae y gêm fwrdd Coed a Simneiau i gadarnhau'r dysgu**

Mae copïau o'r gêm ar gael gan Cymorth Cristnogol.

- Ar ôl i'r plant chwarae'r gêm defnyddiwch **ffeithiau Hinsawdd Hurt** er mwyn ategu'r problemau a'r gweithgarwch sydd yn y gêm.

© Cymorth Cristnogol, Hydref 2007

# HINSAWDD HURT

## Llif!

### Gweithgaredd drama i blant 7-9 oed

**Nod:** Bydd disgyblion yn dysgu sut mae tywydd eithafol yn effeithio ar gartrefi a bywydau rhai o bobl dlota'r byd. Mae plant yn cydymdeimlo â rhai a gollodd eu cartrefi.

**Adnoddau/paratoadau :**

- Poster *Hinsawdd Hurt*
- *Country profiles* (i'w cael ar www.christianaid.org.uk/learn);
- gofod mawr (neuadd ysgol yn ddelfrydol);
- matiau Addysg Gorfforol;
- festiau neu fandiau Addysg Gorfforol (neu sticeri) i ddynodi y rhannau.

**Dysgu ymlaen llaw:** Dylai'r plant fod yn gyfarwydd â chwarae dychmygol gan fod y ddrama hon wedi'i strwythuro'n llac ac yn ben-agored.

**Paratoi**

- Disgrifiwch y tywydd a gofynnwch i'r plant i actio/feimio yn briodol e.e. *Mae'n oer* (plant yn crynu neu yn gwisgo siwmper) *Mae'n bwrw glaw* (meimio rhoi ymbarél i fyny)

**Cyflwyno (gweithgaredd dosbarth cyfan)**

- Y plant i gerdded o gwmpas yr ystafell yn chwilio am ofod. Gofynnwch iddyn nhw wrando wrth i chi ddisgrifio'r tywydd, ac actio allan sut maen nhw'n teimlo wrth iddyn nhw gerdded. *Dychmygwch bod glaw ysgafn, teimlwch ef ar eich wynebau wrth i chi gerdded. Mae'r glaw yn mynd yn drymach ac mae'ch dillad chi'n wlyb. Sut ydych chi'n cerdded nawr? Mae'r glaw yn drwm iawn yn awr ac mae'ch dillad chi'n wlyb diferu; rhaid i chi osgoi pyllau dŵr mawr. Does dim ymbarél gyda chi a wnaiff hi ddim stopio bwrw glaw*
- Stopiwch y disgyblion a gofynnwch sut maen nhw'n teimlo. *Ydych chi'n hoffi cerdded yn y glaw? Beth fyddech chi am ei wneud ar ôl cyrraedd adref i le sych (e.e. cael bath, sychu'ch gwallt, ymlacio ayyb.)?* Soniwch am lifogydd yn y DG. Efallai bod rhai o'r plant wedi cael profiad personol o lifogydd neu wedi gweld lluniau o hofrennyddion yn achub pobl neu'r difrod a achoswyd.
- Dangoswch i'r plant y lluniau o lifogydd sydd ar y poster. Gofynnwch: *Beth sy'n digwydd pan na fydd hi'n stopio bwrw glaw? Allwch chi fynd adref?* Soniwch am y problemau y gallech chi eu hwynebu *(e.e. cartrefi, siopau ac ysgolion dan ddŵr, pobl ac anifeiliaid yn boddi, cnydau yn cael eu distrywio, afiechydon heintus yn lledaenu am fod yna ddim dŵr glân, ayyb).*
- Darllenwch am brofiad Gile o lifogydd o'r poster.

**Gweithgaredd grŵp**

- Dywedwch wrth y disgyblion i ddychmygu eu bod yn byw yn Bangladesh fel Gile. Gofynnwch iddyn nhw ddychmygu eu bod mewn sefyllfa o lifogydd. Rhowch y plant mewn grwpiau o bedwar neu bump.
- Rhowch sefyllfa i bob grŵp ei hactio allan. I bob grŵp, mae'r afon wedi torri ei glannau a'r dŵr yn dechrau codi.
  - (2 grŵp) *Rydych chi yn yr ysgol. Beth sy'n digwydd nesaf?*
  - 2 grŵp) *Rydych chi'n deulu yn eich cartref. Beth sy'n digwydd nesaf?*
  - (1 grŵp) *Rydych chi'n feddygon a nyrsys yn gweithio mewn ysbyty. Eich gwaith chi yw edrych ar ôl pobl a anafwyd neu sy'n glaf*
  - (1 grŵp) *Rydych chi'n gweithio yn swyddfa Cymorth Cristnogol yn Bangladesh. Eich gwaith chi yw sicrhau bod pobl yn medru cael dŵr glân a bwyd i'w fwyta*
- Gwnewch yn siŵr bod pawb yn gwybod beth yw rôl pob grŵp. Gallent wisgo festiau/bandiau/sticeri tîm i nodi eu grŵp. Dywedwch wrthyn nhw fod yna rai pobl sy'n cael problemau ofnadwy ond bod yna hefyd bobl eraill sy'n rhoi help llaw a bod angen iddyn nhw ddod o hyd i atebion i'r problemau a helpu ei gilydd gymaint â phosib. Rhowch un mat Addysg Gorfforol i bob grŵp – dyna eu 'tir sych'. Dywedwch os ydyn nhw am symud o'u tir sych bod rhaid iddyn nhw naill ai nofio (gorwedd ar eu bol i symud ar hyd y llawr) neu rwyfo cwch (symud ar eu pen ôl a rhwyfo gyda'u breichiau).
- Gwyliwch y ddrama yn datblygu ac anogwch y grwpiau i ryngweithio trwy gynnig problemau ac atebion.
- Stopiwch y ddrama ar ôl 10-15 munud, dywedwch wrth y disgyblion bod y dŵr wedi disgyn ond bod eu tai wedi eu golchi i ffwrdd a'u cnydau wedi eu distrywio gan y dŵr. Bydd rhai pobl ac anifeiliaid wedi boddi, tra bod eraill yn sâl iawn.

**Sesiwn llawn**

- Gofynnwch i'r plant ddisgrifio y problemau y maent wedi eu hwynebu a sut y cawsant eu helpu.
- Gofynnwch beth sy'n debyg o ddigwydd wedi'r llifogydd. Beth yw'r problemau newydd *(e.e. bod yn ddigartref, colli aelodau o'u teulu, methu mynd i'r ysgol neu i fannau eraill a ddistrywiwyd, dŵr budr yn y ffynhonnau, dim bwyd ar gael)?*
- Soniwch sut mae cynhesu byd-eang yn newid yr hinsawdd fel bod llifogydd yn mynd yn fwy difrifol ac anodd eu rhagweld
- Soniwch sut y gall torri ein hallyriant o $CO_2$ helpu i gadw'r newidiadau hinsawdd i'r lleiaf posib. Trafodwch ffyrdd i gadw'n hallyriant o $CO_2$ yn isel.
- **TGCh:** ewch i www.globalgang.org i wneud addewid newid hinsawdd, chwaraewch y gêm *Disaster Watch* a darllenwch mwy o storïau newid hinsawdd.
- Ymwelwch â www.christianaid.org.uk/emergencies i ddarganfod sut wnaeth Cymorth Cristnogol ymateb i'r llifogydd yn India a Bangladesh yn 2007. Gallech chi ddarllen y deunydd i'ch dosbarth.

© Cymorth Cristnogol, Hydref 2007

# HINSAWDD HURT

## Hinsawdd newydd!

Gweithgaredd drama i blant 9+

**Nod :** Bydd disgyblion yn cyflwyno achosion ac effeithiau newid hinsawdd trwy feim. Bydd disgyblion yn cydymdeimlo â phobl a effeithiwyd gan newid hinsawdd.

**Adnoddau/paratoi :** Poster *Hinsawdd Hurt; stori Champa; stori Fatimata; 'Country Profiles'* (ar gael ar www.christianaid.org.uk/learn); gofod mawr i weithio ynddo; darn mawr o bapur neu fwrdd gwyn gyda'r awgrymiadau canlynol wedi'u hysgrifennu arno:

1 Achos y broblem

2 Achos arall y broblem

3 Effaith y broblem

4 Effaith arall y broblem

5 Datrys y broblem

6 Byd delfrydol

**Dysgu ymlaen llaw :** Mae'r gweithgaredd yma yn cymryd bod y disgyblion wedi darllen *Stori Champa/Stori Fatimata* ac wedi trafod achosion ac effeithiau newid hinsawdd yn lleol ac yn fyd-eang.

**Paratoi**

- Disgyblion i weithio mewn parau – un plentyn yn A, y llall yn B. Mae A yn sefyll o flaen B gyda llygaid ar gau. Rhaid i B roi cyfarwyddiadau i A sut i symud o gwmpas yr ystafell yn ddiogel. Rhaid i A wrando'n ofalus ar B a dilyn y cyfarwyddiadau. Cyfnewidiwch y rhannau ac ail wnewch yr ymarferiad fel bod pob plentyn yn cael profi'r ddwy ran.
- Holwch y plant am eu teimladau. *Yn ddiymadferth? Yn ddibynnol? Yn ymddiried yn y llall neu ddim?* Cysylltwch hyn â phynciau newid hinsawdd. Mae gwledydd tlawd yn dioddef mwy o effeithiau newid hinsawdd na'r gwledydd cyfoethog. Mae llawer, yn enwedig y tlawd, yn teimlo'n hollol ddiymadferth yn wyneb tywydd eithafol a thrychinebau naturiol mwy dwys ac anodd eu rhagweld.
- Ail wnewch eitem 1 ond y tro hwn rhaid i'r disgybl sydd â llygaid ar gau alw allan pob gair y gall feddwl amdano ar bwnc newid hinsawdd wrth gael ei d/thywys. Cyfnewidiwch y rhannau ac ailadroddwch yr ymarferiad. Gofynnwch os oedd yn fwy anodd canolbwyntio ar y dasg wrth iddynt alw'r geiriau allan. Eglurwch fod newid hinsawdd yn gwneud bywyd yn llawer mwy anodd i nifer o bobl dlawd sydd eisoes yn wynebu anawsterau mawr.

**Rhew-ddrama**

- Gofynnwch i'r parau ymuno â phâr arall i wneud grwpiau o 4 a gofynnwch iddyn nhw greu rhew-ddrama. Dylent ddehongli'r awgrym meim (gweler 'Paratoi' uchod) trwy greu meim statig neu olygfa lonydd. Os yw amser yn brin, gadewch pwyntiau 2 a 4 allan. Rhowch 10 munud iddyn nhw i wneud hyn.
- Wedi 10 munud, gofynnwch iddyn nhw i stopio. Cofiwch gael pob grŵp i ddechrau ar un pen o'r ystafell. Dywedwch wrthynt am ddechrau gyda rhan 1 ac yna symud ymlaen un metr, yna dangos rhan 2 a symud ymlaen metr arall, ac yn y blaen. Erbyn rhan 6 dylent fod wedi symud o un pen i'r llall o'r ystafell. Dynodwch ran neu 'sianel' ar hyd yr ystafell i bob grŵp i ymarfer yn eu tro.
- Wedi 10 munud, pawb i ymarfer gyda'i gilydd. Pob grŵp i ddechrau gyda'r rhew-feim rhan 1. Galwch allan pob awgrym er mwyn eu cael i symud i'r safle nesaf.

**Perfformiad/trafodaeth**

- Gyda'r gynulleidfa (gweddill y dosbarth) yn eistedd yn un pen i'r ystafell, dewiswch grŵp i arddangos eu rhew-ddrama trwy ddechrau yn y pen arall a dod tuag at y gynulleidfa. Gofynnwch i'r grŵp ei pherfformio un waith bob cam ac yna ei hail-adrodd. Bob tro y byddant yn 'rhewi', gwnewch i weddill y dosbarth drafod beth sydd yn digwydd yn yr olygfa lonydd.
- Dylai'r rhew-ddramâu greu cyfleon gwych i ysbarduno'r disgyblion i wneud y cysylltiad rhwng achosion newid hinsawdd, y canlyniadau i'r byd a hefyd beth sydd angen ei wneud i ddatrys y sefyllfa.

**Sesiwn llawn/Dilyniant**

- Siaradwch am dorri ein hallyriant o $CO_2$ a sut y gall hyn helpu'r blaned. Trafodwch ffyrdd o gadw'n hallyriant o $CO_2$ yn isel gartref ac yn yr ysgol. *Beth arall sydd angen ei newid i helpu i wneud ein cymuned yn eco-gyfeillgar i'r hinsawdd?* Gwnewch gynllun gweithredu i'w gyflwyno i gyngor yr ysgol, y prifathro/prifathrawes neu'r AC lleol
- Gofynnwch i'r plant i fynd i www.globalgang.org i wneud addewid newid hinsawdd, i chwarae'r gêm *Disaster Watch* a darllen mwy o storïau am newid hinsawdd.
- Cynhaliwch drafodaeth: os yw newid hinsawdd eisoes yn digwydd, pwy sydd â'r cyfrifoldeb i wneud yn siŵr nad yw'n gwaethygu?
- Ymwelwch â www.christianaid.org.uk/emergencies i ddarganfod sut wnaeth Cymorth Cristnogol ymtaeb i'r llifogydd yn India a Bangladesh yn 2007. Gallech chi ddarllen y deunydd i'ch dosbarth.

© Cymorth Cristnogol, Hydref 2007